OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 No. 1992

Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015

RHAN 12

Amrywiol

Amddiffyniad mewn perthynas â symud ar gyfer triniaeth filfeddygol frys

37. Mae'n amddiffyniad i unrhyw berson a gyhuddir o drosedd o fynd yn groes i unrhyw ddarpariaeth yn y Gorchymyn hwn sy'n ymwneud â symud anifail o ddaliad heb osod neu roi arno'r modd adnabod sy'n ofynnol, neu o beidio â chydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth o'r fath, os profir bod yr anifail wedi ei symud o'r daliad er mwyn cael triniaeth filfeddygol frys.